# LLEW MAWR CYMREIG AWSTRALIA

## Gan JOHN WILLIAMS

PAN OEDDWN yn blentyn ac yn darllen y *Drysorfa Fach* bob mis, 'roeddwn yn gyfarwydd iawn â'r geiriau "Trefnyddion Calfinaidd". Mae'r ymadrodd yna wedi diflannu erbyn hyn ond diolch i'r drefn y mae trefnyddion neu drefnwyr yn lluosog ddigon o hyd yng Nghymru. Ni raid ond crybwyll yr holl drefnu manwl a llwyddiannus a geir y tu ôl i'r ŵyl Genedlaethol heb sôn am y llu o Eisteddfodau mawr a bach ar hyd a lled y wlad. 'Rydym cystal â neb am drefnu pethe.

Bu'r wraig a minnau yn Awstralia am chwech wythnos y llynedd. Cawsom ddiwrnod hyfryd tra'n ymweld â "World Expo 88" sef yr arddangosfa enfawr a gynhaliwyd yn Brisbane o ddechrau Mai tan ddiwedd Hydref. Buasai angen tri neu bedwar diwrnod i weld y cwbl. Fe gostiodd oddeutu £250 miliwn ac y mae'r Awstraliaid yn ymfalchïo'n ei llwyddiant.

Prif thema'r Ŵyl yw: "Hamdden mewn Oes Dechnolegol". Hon yw uchafbwynt dathlu daucanmlwyddiant yr ymsefydlu cyntaf gan y dyn gwyn yn Awstralia. Minnau yn ymfalchio am fod y Prif Drefnydd, sef y Cadeirydd, o waed Cymreig ar ochr ei dad ac ar ochr ei fam. Y mae "Llew" yn enw addas iawn arno yn ôl yr hanes ond fel Lw Edwards y cyfeirid ato byth a beunydd ar y teledu yn y wlad honno.

Ganwyd Syr Llew Edwards yn nhalaith Queensland 51 o flynyddoedd yn ôl, yn fab i'r Parch R.T. Edwards. Ymfudodd ei hen-daid (sef taid y Parch R.T. Edwards) i Awstralia tua 1883. Gwyddom ei fod dan ddylanwad y Diwygiad yng Nghymru (1876?) ond y mae man ei eni yn ddirgelwch. Boddodd yn un o afonydd New South Wales dri mis cyn geni taid Syr Llew ac ailbriododd ei weddw gan golli pob cysylltiad â'r teulu yng Nghymru.

Ben Llewellyn oedd enw ei daid ar ochr ei fam ond yma eto prin iawn yw'r wybodaeth ynglŷn â'r man cychwyn. Y cwbl a wyddom yw fod y teulu heddiw yn byw yng Nghaerdydd ac yn dwyn yr enw "Kelly".


* * *

EI FWRIAD cyntaf oedd bod yn drydanwr ond bu'n rhaid iddo roi heibio ei brentisiaeth oherwydd afiechyd. Astudiodd feddygaeth a bu'n feddyg teulu llwyddiannus iawn am rai blynyddoedd cyn mentro i'r byd gwleidyddol. Pan oedd yn 34 mlwydd oed etholwyd ef yn aelod o Senedd Queensland. Ymhen y rhawg, cododd i fod yn Drysorydd Llywodraeth Glymbleidiol Queensland ac yn Ddirprwy i'r Prif Weinidog, Dr. Peterson.

Llywodraeth Geidwadol ei naws oedd hon ond yn dwyn yr enw "Liberal Coalition". Fe sylwais, gyda llaw, fod gogwydd Piwritanaidd yn neddfau Queensland o'u cymharu â deddfau New South Wales, e.e. ni chaniateir gwerthu diod feddwol o unrhyw fath mewn unrhyw siop yn Queensland. Hwyrach mai trefnydd "Calfinaidd" yw Llew!

Fodd bynnag, ar ôl treulio tair blwyddyn ar ddeg yn y Senedd, 'roedd wedi cael digon o'r byd gwleidyddol. Derbyniodd yn llawen ddigon y gwahoddiad i fod yn gadeirydd Awdurdod Expo 88. Hynny yn Chwefror 84.

Yn ystod y tair blynedd cyn agor Expo 88 ar ddiwedd Ebrill, bu'n gweithio 16 awr y dydd bob dydd o'r wythnos ond fe ddaeth tristwch mawr i'w fywyd ychydig dros fis cyn yr agoriad swyddogol pan fu farw ei wraig yn sydyn iawn. Derbyniodd dros wyth mil o lythyrau o gydymdeimlad.




* * *

CLYWAIS rywdro fod Bob Owen, Croesor, yn falch iawn o'r wybodaeth a gasglodd ynglŷn â W.M. Hughes, Prif Weinidog Awstralia yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan fod ganddo hanes ei deulu i gyd "mewn bocs corn flêcs yn y ty 'cw". Mae'n bur annhebyg y bydd Syr Llew Edwards yn Brif Weinidog Awstralia gan ei fod wedi dweud yn bur bendant nad yw am ddychwelyd i fyd gwleidyddiaeth.

Efallai mai "Y Llew *oedd* ar y llwyfan" a fydd y disgrifiad cywiraf ohono wedi iddo gael seibiant ar ôl gorffen ei orchestwaith fel Prif Drefnydd "World Expo 88". Ond y mae'n siwr o gael swydd weinyddol yn rhywle.

Pe digwydd i un o ddarllenwyr *Y Casglwr* wybod am y Thomas Edwards hwnnw a ymfudodd i Awstralia tua 1883 ac a foddodd yno, anfoned air at y Parch R.T. Edwards, P.O. Box 65, Ipswich, Queensland 4305, ac i'r *Casglwr* wrth gwrs.

## Canmlwyddiant Kilsby Jones

*Yr oedd Kilsby'n ddigon parod i ymgymryd â thasg fawr, mae'n rhaid. Yn ogystal â'r argraffiad o holl weithiau Pantycelyn, cyhoeddodd gyfieithiad o Eiriadur Beiblaidd, sef Argraphiad Newydd o Eiriadur Beiblaidd y diweddar Barch. John Brown, wedi ei olygu yn drwyadl gan ei fab, Dr. William Brown.*

*Cyhoeddwyd hwn gan yr un cwmni ag a ddug ei Bantycelyn i olau dydd, sef William MacKenzie, Llundain, Llynlleifiad, Caerodor ac Abertawy (ys nodir), d.d. ond 1870 mae'n debyg — yn Chwefror y flwyddyn honno yr ysgrifennodd J.R. Kilsby Jones ei ragymadrodd byr.*

*Mae i'r Geiriadur 594 o dudalennau ffolio, a cheir y testun ar hyd dwy golofn ar bob tudalen. Mae'n dweud ar y wyneb-ddalen fod William Rees (Hiraethog) wedi cyfrannu at y gwaith.*

*Cyhoeddwyd deg o erthyglau Kilsby yn gyfrol yn yr Unol Daleithiau dair blynedd ar ddeg ar ôl ei farw: Gweithiau y Parch. Kilsby Jones, — sef — Erthyglau a Hanes Teithiau cyhoeddedig yn Y Traethodydd, Y Geninen, &c.*

*Cyhoeddwyd hi gan Thomas J. Griffiths yn Swyddfa'r Drych yn Utica, N.Y., yn 1902; ac y mae iddi 336tt.*